# YMGYRCH CYMRU

LLYTHYR NEWYDDION
YR AELOD UNIGOL
Chwefror 1986.

## TRINIAETH NID TRIDENT

ALL PRYDAIN DDIM FFORDDIO DAL ATI EFO'I RAS ARFAU (BREIFAT) EI HUNAN - SEF SYSTEM TRIDENT, A DIOGELU ANGHENION TRIGOLION Y WLADWRIAETH YM MAES IECHYD

Mae hyn yn dod yn fwyfwy eglur bob diwrnod pan edrychwn ni ar y ffigyrau a werir go iawn ar y Gwasanaeth iechyd Cenedlaethol.

Sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd yn 1948 i ddarparu gofal cynhwysfawr yn rhad ac am ddim i bob dinesydd yng Ngwledydd Prydain. Roedd y gyfundrefn ar y pryd yn esiampl i'r byd. Erbyn hyn, fodd bynnag, dydw i ddim yn credu y gall unrhyw un ohonom ni ymfalchio yn safon y gwasanaethau iechyd sv' ganddom ni, nac ychwaith ein cyfraniad ni i geisio gwella safonau iechyd yn y trydydd byd.

I brofi'r pwynt, dyma enghraifft neu ddwy:

1. Yn 1984 fe wariodd Prydain 5.4% o'u cynnyrch gros cenedlaethol ar y gwasanaeth iechyd. Y ffigur cyfatebol yn Sweden oedd 10%, Unol Daleithiau 9.5%, Ffrainc a'r Almaen 8%.
2. Ers blynyddoedd mae canran y marwolaethau ymysg babanod cyn iddyn nhw gyrraedd eu blwydd oed wedi bod yn cael ei gydnabod fel maen prawf go agos i'w le ynglŷn â stad iechyd gwahanol wladwriaethau. Yn 1982, deuddegfed yn y gynghrair oedd Prydain. Sweden a Japan oedd ar y brig.
3. Mae Trident yn costio ddeugain gwaith y swm a werir bob blwyddyn yn yr ymchwil cancr gan Brydain, a theirgwaith yn fwy na'r swm fyddai ei angen i gael gwared a malaria unwaith ac am byth sy'n effeithio ar dros chwarter poblogaeth y byd.
4. Cost Trident ydi £11 biliwn, sef cymaint a chyfalswm rhaglen cymorth tramor Gwledydd Prydain am y deng mlynedd nesa.

Yn ystod 1986 mae CND Cymru yn bwriadu cychwyn ymgyrch i wneud pobol yn fwy ymwybodol o'r cysylltiad uniongyrchol rhwng y gwariant ar arfau a'r gwariant ar iechyd, gyda phwyslais arbennig ar gynllun Trident sy' newydd gychwyn ac a fydd yn costio o leiaf £11 biliwn. Mae'r ffigwr gwaradwyddus hwn yn gyfystyr a gwario £30,000 bod dydd am y mil blwyddyn nesaf! Oes 'na rywbeth na allai'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ei gyflawni efo arian o'r fath?

Gobeithio y bydd modd inni gydweithio â'r Ymgyrch Feddygol yn erbyn Arfau Niwclear, sydd eisioes yng nghanol ymgyrch 'Trident neu Iechyd'. Bydd gweithdy ar y pwnc yn Llanelwy ar 25 Ionawr, lle y bwriadwn roi cychwyn ar ein hymgyrch yn 1986.

## Ymlaen ag Ymgyrch Caerfyrddin

Pa mor bell y bydd Mr. Eric Alley, cynghorydd y Swyddfa Gartref, yn mynd er mwyn gorfodi Amddiffyn Sifil ar gynghorau Cymru?

Hyd yn oed os methwn yn y diwedd i rwystro codi'r lloches niwclear yng Nghaerfyrddin, y mae'r ymgyrch wedi cyflawni un nod, - nod sydd lawn cyn bwysiced, gellid dadlau, - sef llwyddo i greu newid gwirioneddol yn marn y cyhoedd. Y mae wedi cynnig gwir her i rym y sefydliad, i Gyngor Dosbarth Caerfyrddin a strategaeth y Llywodraeth a'r Swyddfa Gartref ar Amddiffyn Sifil. Arwyddwyd deiseb gan wyth mil o bobl dosbarth Caerfyrddin yn gwrthwynebu'r lloches. Ar ddiwedd 1985, o bob dosbarth yng Nghymru, Caerfyrddin oedd yr unig un y bu iddo dderbyn cymeradwyaeth cymorth grant am Ganolfan Argyfwng Amddiffyn Sifil o dan reolau 1983.

Amcangyfrifir y bydd cost derfynol y cynllun yn £150,000: bydd wedi derbyn y grant mwyaf o ddigon ac wedi creu'r mwyaf o wrthwynebiad o du'r cyhoedd i unrhyw gynllun dosbarth drwy wledydd Prydain.

Ni ellir gweld yr ymroddiad a gafwyd i'r brotest hirhoedlog hon ond fel esiampl inni bob un. Gallai'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerfyrddin heddiw ddod i ran eich ardal chi yfory.

Ein diolch a'n llongyfarchion i Ymgyrch Caerfyrddin yn erbyn y Lloches, d/o 2 Stryd Mansel, Caerfyrddin, Dyfed. Croesewir pob cyfraniad a/neu ymholiad.

## DALIWCH I GEFNOGI GREENHAM

A ninnau yng nghlydwch ein cartrefi, y mae'n wir anodd gwerthfawrogi'r dewrder a'r caledi a ddioddefir gan y gwragedd a wersyllodd yn Greenham, o dro i dro am dros bedair blynedd.

Mae dyled pawb yn y mudiad heddwch iddynt yn un enfawr.

Gweld protest Greenham yn amherthnasol y mae'r Wasg a'r cyfryngau, a'i hanwybyddu, ond arall yw tystiolaeth y geiriau hyn.

Ar Hydref 26 ymddangosodd llythyr ym mhapur newydd y 'Guardian' gan aelod o'r grŵp 'Cadw golwg ar Cruise'. Swm a sylwedd yr ohebiaeth oedd dweud nad oedd modurgad lawn o'r Cruise Americanaidd wedi gadael Canolfan Llu Awyr yr Unol Daleithiau yng Nghomin Greenham i grwydro hewlydd De Lloegr ers tri mis.

Roedd y Cadfridog Charles Donnelly, pennaeth Llu Awyr yr America yn Ewrop, wedi cyfadde' ei bod hi bellach yn anymarferol mynd ar fodurgad lawn o'r ganolfan a hynny oherwydd dycnywch protest y merched yn Greenham a grwpiau eraill yn y safleoedd lansio nad oedd neb i fod yn gwybod amdanynt.

Yn wreiddiol roedd modurgad Cruise i fod i gynnwys 22 o gerbydau militaraidd yn ymestyn dros bellter o chwarter milltir. Fe fyddai yna hefyd lu o gerbydau'r heddlu a'r bwriad oedd y byddai'r holl gonfoi yn teithio gefn nos.

Llwyddwyd i atal Cruise gan ddefnyddio mwy nag un tacteg:

* Wrth rannu taflenni a chael cannoedd o bobol yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i gymunedau lleol fod Cruise ar y ffordd yno hyd yn oed pan anwybyddwyd y peth yn llwyr gan y cyfryngau.

* Rhoddwyd sbocsen yn olwyn mwy nag un cerbyn drwy beintio'r windsgrin o'r bôn i'r brig.

Mae cynlluniau hyfforddi yr Unol Daleithiau wedi cael eu bwrw cymaint ar eu hechel nes bod y swyddogion bellach yn barod i ganiatau i gerbydau cynorthwyol adael y ganolfan fesul un a dau dros gyfnod go helaeth - yn amal yn ystod y dydd. Ar ôl rowndio ofnadwy mae'r holl gerbydau yn cyfarfod ar wastadedd Salisbury. Yna ei baglu hi'n ôl am Greenham heb gyflawni eu tasg.

Mae'n rhaid bod y tri mis hesb yma wedi bod yn gyfnod o embaras. Gwers y stori ydi fod llywodraethau gormesol yn dibynnu ar y teimlad o ddiymadferthedd ymysg ei deiliad, teimlad eu bod yn cael eu gorlethu a'r sgubo o'r neilltu gan rym nerthol y wladwriaeth. Cymerir yn ganiataol wedyn fod ein tawedogrwydd ni yn gyfystyr â rhoi sêl bendith. Ond wrth weithredu i wrthwynebu gweithgareddau'r wladwriaeth niwclear, fe allwn ni roi cychwyn ar y broses o ailgyfeirio adnoddau oddi wrth y dulliau lladd tuag at y dulliau o greu a chynnal bywyd.

## Pedwerydd Penblwydd Cymru Di-Niwclear Chwef 15-22 1986

Bydd dathliadau'r flwyddyn nesa' yn cael eu lansio pan gynhelir Rali a Gŵyl yn Aberystwyth ar Chwefror 15.

Cynhelir yr achlysur yn enw CND Cymru gyda Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth ar y cyd a WANA yn gwneud y trefniadau. Thema'r diwrnod fydd 'Cymru Ddifreintiedig' (Gofal nid rhyfel, 'Triniaeth nid Trident, Bara nid Bomiau). Y gobaith yw y gellir cynnal y thema hon drwy gydol yr wythnos ym mhob cwr o Gymru. Gobeithir hefyd y bydd y thema yma yn gymorth i ddenu mwy o gefnogaeth gan fudiadau a chymdeithasau fel Undebau Llafur, eglwysi a chapeli, mudiadau menywod a grwpiau ieuenctid.


Bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 10.30 ac yn cynnwys:

Gwasanaeth cyd-enwadol.
Gorymdaith drwy'r dref i fyny i gwmpas y brifysgol
Cyfarfod yn neuadd fawr Undeb y Myfyrwyr
Bwyd
Adloniant yn cynnwys grwpiau a theatr
Gweithdai trafod am amrywiaeth mawr o bynciau
Stondinau
Meithrinfa yn ogystal ag adloniant i blant
A CHOFIWCH HEFYD DDOD A BANER!

Fe fyddwn yn goyn i bob un o'r wyth sir ddi-niwclear yng Nghymru gael baner arbennig ar gyfer yr achlysur.

Bydd mwy o wybodaeth yn eich cyrraedd drwy'r post. Am ragor o fanylion, cysylltwch â: Mary Jones, Nythfa, Talybont, Aberystwyth, Dyfed. (097086) 673.

Tynnwyd y llun hwn oriau ar ôl meddiannu'r lloches niwclear yng Nghaerfyrddin am y tro cyntaf. Yna gwelwn y protestwyr heddwch lleol yn cynllunio i godi lloches iddynt hwy eu hunain. Go brin eu bod yn sylweddoli mae hon fydd eu 'cartref' am dros fis yn Hydref 1985.



Llun: Ralph Carpenter.

I FFRIND

**Ymaelodwch ag CND Cymru**

Tâl aelodaeth CND: Oedolion £9; dau berson yn rhannu'r un cyfeiriad £12; Myfyriwr £3; Ieuenctid CND £1 (o dan 21 oed); digyflog £2.

Ydw, rwy'n awyddus i ymuno â CND Cymru. Amgaeaf fy nhâl aelodaeth.

Fy enw ..............................................

Fy nghyfeiriad ..............................................

.............................................. Côd Post ..........

Dychweler y ffurflen hon i'r Ysgrifennydd Aelodaeth: 2 Plasturton Avenue, Pontcanna, Caerdydd CF1 9HH.

CND CYMRU

XM 85

Ymunwch â CND Cymru

## NEGES 1986

Mae hon yn adeg dda i wneud mwy ar ran ein mudiad. Gyda'n gilydd rhaid inni adeiladu ar sail y gwaith a wnaed dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, gwneud CND Cymru yn gryfach mudiad ac yn rhan fwy perthnasol o fywyd Cymru. Mi ddichon hyn fod, fel y dangosodd yr ymgyrch yn erbyn lloches niwclear Caerfyrddin. Mae gan lawer ohonoch alluoedd a gwybodaeth arbenigol y mae eu hangen yn yr ymgyrch. Rhowch gymorth os medrwch. Y mae croeso ichwi yng nghyfarfodydd y Cyngor (gweler y Calendr Digwyddiadau am yr adeg y'u cynhelir ac ymhle) a'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.

Fel ymgyrch 'rydym yn dibynnu i raddau mawr iawn ar aelodaeth unigol i sicrhau ein sail ariannol. Trwy ennill dwy fil o aelodau newydd yn ystod 1986 gallem gyflogi gweithiwr amser llawn. Pe caech chi un i ymelodi ag CND Cymru yn awr, gallem yn hawdd basio'r nod hwnnw cyn y Pasg.

Gadewch inni godi'r mudiad gyda'n gilydd a datblygu ein hymgyrchu.

Dewch yn aelod gweithredol o CND Cymru.

Gronw ab Islwyn
Cadeirydd CND Cymru